Duw yn Llefaru

Adnodau agoriadol:

"Y mae llais yr Arglwydd yn uwch na'r dyfroedd; Duw'r gogoniant sy'n taranu, y mae'r Arglwydd yn uwch na'r dyfroedd cryfion! Y mae llais yr Arglwydd yn nerthol, y mae llais yr Arglwydd yn ogoneddus." Salm 29: 3-4.

A dywedodd wrthynt, "Dewch ar fy ôl i, ac fe'ch gwnaf yn bysgotwyr dynion" Mathew 4: 19.

Geiriau agoriadol:

Y mae'r sawl sy'n ymwybodol o realrwydd ac agosrwydd Duw yn ymwybodol hefyd o glywed ei lais yn llefaru trwy wahanol gyfryngau – trwy'r Beibl, trwy weddi a distawrwydd, trwy brofiadau bywyd, ac yn bennaf oll trwy Iesu Grist.

Cofiwch fod Duw yn agos iawn atoch, ymdawelwch yn ei gwmni, ac wrth i'r distawrwydd ddwysáu, gwrandewch ar lais tawelwch...

'...F'enaid gwrando
Lais tangnefedd pur a hedd.'

Williams, Pantycelyn.

Cyfnod o ddistawrwydd:

Gweddi:

Rho i ni, Arglwydd,
glustiau i glywed
a chalonnau i wrando
ar dy lais di uwchlaw lleisiau'r byd.

Cymorth ni i'th glywed yn llefaru
trwy leisiau dy greadigaeth:
trwy furmur yr afon,

sibrwd yr awel
a chân yr aderyn.

Cymorth ni i'th glywed yn llefaru
trwy ddigwyddiadau beunyddiol bywyd:
trwy eiriau'n cyd-ddynion,
trwy seiniau cerddoriaeth
a thrwy bob profiad llawen.

Cymorth ni i'th glywed yn llefaru
trwy wirioneddau dy Air:
yng ngeiriau'r Beibl,
ym mhregethiad yr Efengyl
ac ym mywydau dy saint.

Cymorth ni i'th glywed yn llefaru
ym mywyd a pherson dy Fab Iesu Grist:
yn ei ddysgeidiaeth bur,
yn ei weithredoedd nerthol
ac yng ngrym ei angau a'i atgyfodiad.

Cymorth ni i'th glywed yn llefaru
yn nistawrwydd yr eiliadau hyn.
Dysg ni i ddisgwyl wrthyt,
i wrando arnat,
i dderbyn dy Air yn llawen
ac i ymateb yn ufudd ac yn eiddgar
i'th alwadau arnom. Amen.

Emyn: 340 Caneuon Ffydd.

Cefndir:
Mae Duw wedi llefaru o'r dechrau. Ym mhennod gyntaf llyfr Genesis, yr ymadrodd sy'n dod dro ar ôl tro ydi, "A dywedodd Duw....." Duw yn llefaru wrth ei bobl yw Duw y Beibl. Mae proffwyd ar ôl proffwyd yn cyhoeddi, "Daeth gair yr Arglwydd ataf a dweud" (Jeremeia 1: 4). Gellir

cymharu Hosea 1: 2, Jona 1: 1, Micha 1: 1, Haggai 1: 3. Yn y llythyr at yr Hebreaid myn yr awdur fod Duw wedi llefaru mewn llawer dull a llawer modd ond "yn y dyddiau olaf hyn llefarodd wrthym ni mewn Mab" Hebreaid 1: 1. Mae'r Mab, yntau yn llefaru ac yn galw a chawn hanes galw'r disgyblion cyntaf gan Mathew. Yn ail ran y darlleniad cawn hanes galw Mathew.

Darllen:

Mathew 4: 18 – 22
Mathew 9: 9 – 13

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio ar neges y darlleniadau.

Gweddi:

Arglwydd, rydyn ni mor brysur,
am ein bod ni eisiau helpu pawb,
am ei bod hi mor anodd dweud 'na',
am ein bod ni wrth ein bodd
fod pobl yn gofyn i ni,
ac mae'r cwbl yn llenwi'n bywydau,
i'r ymylon.
Ac wedyn does dim amser i ddim arall.
A'r pryd hwnnw mae'r blinder yn troi'n dymer ddrwg,
a dyna lle'r ydyn ni yn casáu pobl am eu bod
nhw wedi gofyn.
Casáu pobl sydd angen ein cymorth.
A dyna deimlo'n euog.
Arglwydd mae'n union fel
un cylch dieflig.
Llonydda ni am funud bach
i ddysgu tawelu
a gwrando.

Diolch nad wyt erioed wedi tewi.
Rwyt ti wedi llefaru

wrth bobl ar hyd yr oesoedd.
A'r hyn sy'n codi'n calonnau heddiw
ydi dy fod ti'n dal i lefaru.
Wnei di faddau i ni am ofyn cwestiynau:
Lle'r wyt ti heddiw?
Pam na wnei di lefaru?
Pam wyt ti mor ddistaw?
Rwyt ti yn llefaru.
Ni sydd wedi troi clust fyddar.

Ar adegau fel hyn rydyn ni'n dyheu
am glywed dy lais.
Yn y llef ddistaw, fain
rwyt ti'n llefaru.
Ei chael hi'n anodd i wrando
ydi'n problem ni, bob gafael.
Mi ydyn ni wedi mynd i gredu
pan fyddwn yn stopio
y bydd y byd yn dod i ben,
gan gredu fod y cyfan yn
dibynnu arnon ni.
Dysg ni i gofio,
dy fyd ti yw hwn.
Diolch am gael bod yn rhan ohono
ond, atgoffa ni eto,
dy fyd di, nid ein byd ni.

Helpa ni i ymdawelu,
i wrando arnat ti, o'r newydd.
Arafa guriadau ein calonnau
a boed i ni ymlonyddu am funud
a gwrando ar dy lais yn
GALW.

Cyfnod o ddistawrwydd i wrando

Cydadrodd neu gydganu Gweddi'r Arglwydd.

Emyn: 781 Caneuon Ffydd.
Teitl yr emyn hwn, pan gyhoeddwyd ef gyntaf yn "Yr Efengylydd" oedd, 'Y Llef ddistaw fain'.

Anerchiad:

Yn dilyn profiadau'r anialwch, dechreuodd Iesu ar ei Weinidogaeth yn ei gynefin yng Ngalilea. Cyhoeddodd ei faniffesto'n glir a chroyw, "Edifarhewch, oherwydd y mae teyrnas nefoedd wedi dod yn agos". Mae'r ymgyrch fawr bellach ar waith. Doedd dim troi'n ôl, felly i'r gad. Ac er mwyn cyflawni'r dasg aruchel hon mae angen cydweithwyr i fod yn (a) gwmni iddo yn y gwaith. Gwaith unig a dolurus yn aml yw gwaith y weinidogaeth. Mae'n rhaid hefyd (b) hyfforddi ac addysgu ar gyfer y dyfodol. Nid gwaith hawdd oedd deall breuddwyd fawr Iesu ar gyfer ei fyd. Yn yr hanes gan Mathew cawn Iesu'n galw ei ddisgyblion cyntaf. Beth yw oblygiadau'r Galw a pha neges sydd yna i ni heddiw?

Galwad Bersonol:

Yn yr hanes gan Mathew gwelwn Iesu yn galw fesul dau, Pedr ac Andreas, Iago ac Ioan, Mathew 4: 18 – 22. Yn ôl efengyl Ioan (Ioan 1: 35 – 42) mae hi'n stori wahanol. Mae'n amlwg fod Andreas wedi dod dan gyfaredd Iesu o flaen ei frawd, oherwydd yn ôl yr efengyl hon mae'n mynd i chwilio am ei frawd Pedr gan gyhoeddi, "Yr ydym wedi darganfod y Meseia" (Ioan 1: 41). Galwad fesul un neu bob yn ddau yw galwad y Meistr. Mae'r berthynas bersonol mor bwysig a hanfodol. Fyddech chi'n dweud fod yr elfen bersonol, agos atoch chi, yn cael lle amlwg yng nghymuned eich eglwys chi? Cofiaf sgwrs ag athrawes oedd wedi symud i fyw i ardal lle roedd yn dysgu. Y bore Llun, ar ôl iddi symud, dyna lle'r oedd yr athrawon yn holi sut oedd pethau wedi mynd; ydi'r tŷ mewn trefn, sut mae'r plant yn setlo a dyma finnau'n gofyn, 'Fuoch chi yn y capel ddoe?' 'Do' meddai, "ond fyddai byth yn mynd yno eto. Chawson ni ddim croeso o gwbl. Ddywedodd neb ddim bw na be wrthyn ni. Capel oeraidd iawn. Mi fyddwn ni'n mynd i chwilio am gapel arall." Pa mor wir ydi hyn yn ein heglwysi ni? Mae meithrin perthynas glos, agos atoch chi, yn bwysig. Dyna oedd un o

nodweddion amlycaf gweinidogaeth Iesu. Tyrrai pobl o wahanol gefndiroedd ato a'r rheswm pennaf oedd am ei fod yn rhoi sylw a gwrandawiad unigol iddyn nhw. A sylwch pwy oedd ei bobl. Yr unig, y trallodus, yr anghenus – sef pobl oedd angen clust i wrando arnynt. Pa mor barod ydi'r Eglwys heddiw i roi clust i'r anghenus yn ein cymdeithas? Pa mor barod ydyn ni i roi arian at brosiectau mewn gwledydd pell ac anwybyddu'r anghenion ar garreg y drws?

Galwad ymlaen:
'Dewch ar fy ôl i.....', oedd geiriau Iesu. Dyma'r ffordd y torrodd teyrnas nefoedd i mewn i fyd o amser. Iesu'n galw a'r bechgyn yn gwrando ac yn ufuddhau. Rhyfeddod yn wir oedd gweld y bechgyn hyn yn gadael eu gwaith, eu busnes, y cychod a'r gêr i ddilyn Iesu. Pwy feiddia wneud y fath beth heddiw? Ond mae gennym enghreifftiau cyfoes o bobl yn gadael eu galwedigaethau i weithio dros Dduw yn y byd. Beth sy'n cymell pobl i ymateb fel hyn? Taerineb y galw. Mae cyfeirnod y galw yn sicr – ymlaen. Nid galwad yn ôl, a byw yn y gorffennol yw galwad y Meistr. Yn y galw mae dau air allweddol, pegynol sef "Dewch" ac "Ewch". Ni ellir meddwl am un heb y llall. O'u galw i ddilyn, i ddechrau daw y gorchymyn i fynd – i fynd ymlaen. Onid ydym yn byw gormod heddiw ar brofiadau ddoe? Meddyliwch am funud am yr eglwys yr ydych chi'n aelod ohoni? Faint sydd wedi newid ers pan oeddech chi'n blentyn? Beth am y gwasanaethau – y frechdan emynyddol? Beth am fywyd yr eglwys? Ai byw er ei mwyn ei hun mae'r eglwys – casglu arian at adeiladau, ynteu casglu i helpu eraill? Profiadau newydd sbon oedd profiadau'r disgyblion yng nghwmni Iesu. Neges bore'r Pasg oedd, "Y mae wedi ei gyfodi; nid yw yma;.....Y mae'n mynd o'ch blaen chwi i Galilea" Marc 16: 6 – 7. Ar y blaen oedd Iesu yn arwain ac yn arloesi. Mae'n galw ei eglwys heddiw i arwain ac arloesi ac i fod ar flaen y gad.

Galwad di-ben-draw:
Does dim ffiniau na therfynau i'r alwad hon. Tybed oedd Pedr wedi dychmygu, ar ôl profiadau chwerw yr Wythnos Fawr, beth oedd yn mynd i ddigwydd iddo? Ioan 21: 15 – 18, sy'n croniclo'r digwyddiad wedi'r helfa o bysgod. Mae Iesu'n cymryd Simon Pedr o'r naill du ac yn gofyn tri chwestiwn dirdynol iddo, "Simon fab Ioan, a wyt ti'n fy

ngharu i". Roedd y tri chwestiwn yn trywanu enaid Simon Pedr. Cadarnhaol oedd yr atebion bob tro. Fyddech chi'n dewis dyn oedd yn fethiant yn un i arwain y gymuned Gristnogol i'r dyfodol? Sylwch ar ddulliau Iesu. Gwyddai Iesu'n iawn beth oedd y gorau i Pedr ac mae'n mynd yn ôl at yr hyn oedd yn poeni Pedr. Mae'n debyg ei fod yn teimlo methiant.....pan ganodd y ceiliog. Mae Iesu'n rhoi cyfle arall iddo, "Wyt ti yn fy ngharu?" Dim gweld bai, dim llofnodi ei fod yn mynd i gadw at ei air. Nid mewn fframwaith y ddeddf mae Iesu'n gweithredu ond yn rhyddid gras. Mae'r cyfrifoldeb newydd yn rhan o fywyd Pedr yn syth, dim cyfnod o ddygymod â'r swydd. Does dim cwestiynau ynglwn â pha fath o sgiliau arweinydd a sgiliau trefniadol oedd yn perthyn iddo. Gofynnwyd iddo a oedd yn caru Iesu, dyna i gyd. Ymateb i'r alwad wnaeth Pedr – ymateb i gariad Duw yn Iesu Grist. Wrth ymateb fel hyn, wyddon ni ddim beth fydd y pendraw. Tybed ydyn ni'n derbyn ein cyfrifoldebau o ddifri ym mywyd yr Eglwys?

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio.

Gweddi:

Os byddaf heddiw ar goll ynghanol penbleth bywyd a rhuthr dyletswyddau lawer, chwilia amdanaf, Arglwydd grasol, a dwg fi'n ôl i dawelwch dy bresenoldeb. Amen.

Gweddïau a Salmau

Emyn: 483 Caneuon Ffydd.

Cwestiynau i'w trafod:

Roedd yr Arlywydd Bush yn credu'n gryf fod Duw wedi ei alw i anfon milwyr i Irac? Sut fyddech chi'n dehongli hyn?

Ym mha ffyrdd y mae Duw yn llefaru heddiw? Ydi Duw yn galw pobl i alwedigaethau sy'n gwneud mwy o ddrwg nag o les e.e i gynhyrchu arfau dinistriol?

Sut y gall yr Eglwys yn eich ardal chi arwain ac arloesi? Beth fyddai'r blaenoriaethau?

Beth yw cyfrifoldebau'r Cristion oddi mewn i'r gymuned Gristnogol? Ydi'r syniad o gapel neu eglwys yn rhwystr i alwad Duw ar gyfer ei fyd?

Beth yw galwad? Sut mae dehongli ystyr galwad yn ein dyddiau ni?

Gweddi:

O Dduw, mae yna gyfnodau pan ydan ni'n cwyno.
Cwyno am ein bod yn credu dy fod ti'n
galw rhai pobl ac nid eraill.
Mae'r Beibl yn cyhoeddi dy fod ti'n Dduw yr holl bobloedd.
Pam, felly, mae rhai pobl yn cael eu galw,
eu dethol a'u neilltuo i waith arbennig?
Mae'n deg i ni ofyn pam Noa? Pam Abraham a Moses?
Pam y proffwydi? Pam Paul?
Pam Arglwydd?
O edrych ar fywydau'r unigolion hyn
onid galw wyt ti, nid i statws a safle,
ond i waith a chenhadaeth.
Nid galw ffefrynnau wyt ti
ond galw cyfryngau dy genhadaeth yn y byd.
Rwyt ti'n dal i alw, heddiw.
Rwyt ti'n galw drwy gyfrwng yr oedfa hon.
Rwyt ti'n ein galw i antur.
Rwyt ti'n ein galw i gymryd risg,
i gefnu ar y cyfarwydd, y diogel a'r cysurus
ac i fentro i'r anghyfarwydd, y dieithr a'r anhysbys.
Rwyt ti'n ein galw i ganfod ffyrdd newydd, llwybrau newydd,
dulliau newydd o gyhoeddi a dathlu'r newyddion da
i'r byd.
Rydyn ni'n rhy barod i ganmol
ac ymfalchïo yn ein hunain,
yn ein hachubiaeth ei hunain

ac i bwyso ar ein rhwyfau
gan gredu ein bod yn gadwedig a saff.
Arwain ni, heddiw Arglwydd, i ymateb o'r newydd
i'th alwad
ac i ymroi i'r gwaith mawr
o ennill y byd i ti. Amen.

Emyn: 817 Caneuon Ffydd.

Y Fendith:

Diolch i ti, O Arglwydd
am lefaru trwy'r oedfa hon.
Cynorthwya ni'n awr
i ymateb i'r llefaru.
Anfon ni i'r byd
i weithredu
yn ôl
dy air di. Amen.